

14 GORFFENNAF 2020

DATGANIAD I'R WASG

'LLYGAID PAWB AR GYMRU'



Bu'r gynhadledd ryngwladol yn ddiweddar, sef 'Llygaid Pawb ar Gymru' yn llwyddiant ysgubol. Yn ystod y dydd, bu dros 350 ymuno â'r gyfres o weithdai byw, a gwylwyd llawer ohonynt gan grwpiau o ddysgwyr.

Roedd negeseuon a themâu pendant yn gwau drwy'r diwrnod o safbwynt y Cwricwlwm i Gymru, yn arbennig felly y pedwar diben, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Arweinyddiaeth a Llais y Dysgwr.

Canmolodd ein siaradwyr gwadd a rhyngwladol, fel Nick Butter a Jazz Ampaw-Farr, y gweithgarwch sydd yn y byd addysg yng Nghymru ar hyn o bryd. Bu Miguel Gonzalez o Gonfensiwn Fframwaith y Cenedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, longyfarch GwE ac ysgolion Gogledd Cymru am arwain y ffordd ar Her Newid Hinsawdd 100 Ysgol y Cenedloedd Unedig.

Yn ôl Gavin Cass, GwE:

"Roedd yn wych cael cymaint o siaradwyr hynod ysbrydoledig o bedwar ban byd yn cefnogi ein cynhadledd. Cawsom gymaint o negeseuon calonogol am y sgysiau difyr. Rydym eisoes wedi dechrau meddwl sut allwn ni gynllunio ar gyfer y gynhadledd nesaf".

Diolchodd Joe Carvin, Sylfaenydd 'One World' i bawb am gyfrannu:

"Un peth yw cyflwyno ar gymhwysedd byd-eang, peth arall yw dangos cymhwysedd byd-eang. Diolch i GwE am drefnu'r gynhadledd; Roedd yn anhygoel. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i ail lansio ein her 100 ysgol yng Nghymru, Tsieina, Mecsico a'r UD.

Wrth i mi feddwl am yr heriau cynyddol sy'n wynebu'r ddynolryw heddiw, calonogol yw gweld y gallwn ddod ag arweinwyr at ei gilydd, fel y tystiwyd heddiw, a'r rheiny'n arweinwyr â chalonnau cariadus i'n helpu ni ddeall a rhoi sylw i holl heriau'r ddynolryw".

Ychwanegodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, Arwyn Thomas:

"Hon oedd y gynhadledd gyntaf o'i math i ni, ac er mai cynhadledd rithiol oedd hi, gadawodd y dechnoleg i ni ymwneud â'r gynulleidfa yn rhwydd, ac i hwythau anfon cwestiynau a sylwadau i danio a llywio'r drafodaeth rhyngom ni a'r cyflwynwyr drwy gydol pob sesiwn.

Mae'n bwysig nodi nad oedd unrhyw gost i'r gynhadledd. Nid oedd costau am siaradwyr, costau teithio na chostau am leoliad. Ac, yn well byth, roedd ôl-troed carbon y gynhadledd yn hynod isel.

Bu'n sicr yn llwyddiant ac yn arloesol mewn amryw o ffyrdd. Edrychwn ymlaen at ddatblygu ar hyn yn y dyfodol".

NODIADAU:

GwE

GwE yw gwasanaeth gwella ysgolion Gogledd Cymru. Mae'n wasanaeth a gyd-rennir ar draws Chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, gan gydweithio'n agos ag ysgolion. Mae pob rhanddeiliad wedi ymrwymo i wella cyfleoedd a chanlyniadau addysgol ar gyfer ein dysgwyr.

www.GwEGogledd.Cymru

Twitter: GwEGogledd.Cymru

Mae rhaglen lawn y dydd ar gael drwy ddilyn y cyswllt hwn: [g - https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2020/06/Llygaid-Pawb-ar-Gymru.pdf](https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2020/06/Llygaid-Pawb-ar-Gymru.pdf)

Gallwch edrych ar y gweithdai eto ar wefan GwE, Sianel Youtube GwE a ffrwd Twitter GwE. Dyma'r cysylltiadau uniongyrchol:

- Bore - <https://youtu.be/iKLY21jh6nU>
- Prynawn - <https://youtu.be/IO-RVvwQQ2E>

Gwybodaeth am y siaradwyr gwadd

Jaz Ampaw Farr

<https://jazampawfarr.com/>

Natur benderfynol Jaz ddaru ei gyrru hi o'i chartref lle cawsai ei cham-drin gan ei rhieni, ffoi o'i gofal maeth i fod yn byw ar stryd a hithau yn ei harddegau, a mynd ymlaen i gynghori llywodraethau a siarad yn rhyngwladol o flaen miloedd o bobl.

Mae gan Jaz, y siaradwraig, ddawn gyfareddol i hudo ei chynulleidfa a rhannu ei hanes gyda hiwmor a gwyleidd-dra, heb unrhyw dinc blin na chwerw. Mae hi'n gwahodd pobl i sgysio'n fwy gwirioneddol am ddewis ac asiantaeth, a dywed unigolion a sefydliadau eu bod yn fwy penderfynol a chynhyrchiol yn sgil hyn.

Yn rhinwedd ei swydd yn ymgynghorydd, mae Jaz a'i thîm yn cyd-gerdded â chleientiaid ar daith drawsnewidiol yn arwain eu hunain ac eraill at ddewrder, at gynyddu effaith ac at gynyddu dylanwad.

Yn hytrach na meddwl am yr hyn a fu, mae Jaz yn dryw i'w geiriau, yn enwedig o safbwynt mentro a meddylfryd fel y gwelwn o'i gyrfa ar y llwyfan gomedi a'i rheidrwydd i ymddangos ar raglenni realiti ar y teledu (sydd dan reolaeth bellach gydag un ymddangosiad pob ugain mlynedd).

Byddai'n deg dweud bod gweithio gyda Jaz yn gadael ôl. Mae Jaz yn gwneud i chi deimlo y gallwch wneud yr amhosibl fel y byddech chi'n barod am y tro nesaf y byddech chi mewn helbul.

Nick Butter

<https://www.nickbutter.com/>

'RunningTheWorld196'. Yn 2019, Nick oedd y person cyntaf a'r unig berson i redeg pellter marathon lawn ym mhob gwlad yn y byd, a hynny mewn cwta 23 mis. 3 marathon mewn 3 gwlad, pob wythnos, am 96 wythnos. Mae Nick yn ysbrydoli cynulleidfaoedd ac yn rhannu ei brofiadau ag eraill a'u hannog i gydio mewn cyfleoedd bywyd.

Susan Owen Jones, Rheolwr Busnes GwE

susanowenjones@gwegogledd.cymru